# Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu De Cymru

# Adroddiad ar Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant

Ionawr 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y goron 2024 WG49764 ISBN digidol 978-1-83577-887-6

## Cyflwyniad

Rhwng 15 ac 19 Ionawr 2024, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Phrif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant yng Nghaerdydd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol yng Nghaerdydd.

**Cwmpas yr arolygiad**

Fel rhan o'r Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA), adolygwyd y canlynol:

- yr ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeulustod pan fyddant yn cael eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau
- gwaith i amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- sut y caiff y gwaith hwn ei arwain a'i reoli
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn

Rydym wedi ceisio defnyddio iaith syml i ddisgrifio canfyddiadau'r arolygiad ar y cyd. Rydym yn cyfeirio at nifer o dermau yn yr adroddiad sydd wedi'u diffinio isod:

| Term neu Ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Care First | Cronfa ddata TG Gwasanaethau Plant |
| CAGCh | Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth |
| BIPCF | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

| | |
|---|---|
| Arweinydd Diogelu Dynodedig | Yr unigolyn a benodir i fod yn bennaf cyfrifol am faterion amddiffyn plant mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. |
| Person Diogelu Dynodedig | Arweinydd diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion. |
| ELSA | Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol – rhaglen ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol a gyflwynir gan staff hyfforddedig mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion. |
| Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig | Mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol wedi'u hyfforddi i gynnig cyngor a chymorth arbenigol i ddioddefwyr trais domestig. |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddwyr | Nod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw gostwng troseddu a darparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon yn ardal eu heddlu. Cânt eu hethol gan y cyhoedd i ddwyn Prif Gwnstabliaid a'r heddlu i gyfrif, gan sicrhau bod swyddogion yr heddlu yn atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. |
| MARAC | Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth yw MARACau. Cyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol ydynt, a gynhelir er mwyn trafod sut i helpu unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed o ganlyniad i drais neu gam-drin domestig. |
| MARF | Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol |
| MASH | Hyb Diogelu Amlasiantaethol – Un pwynt cyswllt ar gyfer pob pryder diogelu newydd. |
| NICHE | System wybodaeth yr heddlu |

| | |
|---|---|
| Ymgyrch Encompass | Partneriaeth rhwng yr heddlu, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yw Ymgyrch Encompass. Un o egwyddorion Ymgyrch Encompass yw y dylid rhannu pob digwyddiad lle ceir achos o gam-drin domestig ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, nid dim ond y digwyddiadau hynny lle y gellir nodi trosedd. |
| Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus | Rhoddir proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar waith pan fydd yr Awdurdod Lleol yn pryderu am lesiant plentyn ac oni chaiff camau cadarnhaol eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny a'u lliniaru, gall yr Awdurdod Lleol ystyried gwneud cais i'r Llys. (Family Law Group) |
| HAC | Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | Math o ysgol a sefydlir ac a gynhelir gan awdurdod lleol i ddarparu addysg i blant a phobl ifanc na fyddant, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, o bosibl yn cael addysg o'r fath (adran 19 o Ddeddf Addysg 1996) |
| Adran 47 (A47) | O dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os ymddengys fod plentyn yn ei ardal yn dioddef niwed sylweddol neu'n wynebu risg o hynny. |
| Arwyddion Diogelwch | Dull o ymdrin ag ymarfer amddiffyn plant sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac a drefnir ar sail diogelwch. Cafodd ei greu drwy ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i weithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth ddatblygu diogelwch ystyrlon i blant sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg. |
| Tîm o amgylch y Clwstwr | Nod model y Tîm o Amgylch y Clwstwr yw helpu ysgolion ac unedau cyfeirio ysgolion i nodi a chefnogi teuluoedd yn gynt pan fydd yr angen yn codi drwy gydweithio â phartneriaid allweddol. |
| THRIVE | Mae Thrive yn cynnig dull sy'n ystyriol o drawma ar gyfer yr ysgol neu'r lleoliad cyfan sy'n helpu i wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. |
| VAWDASV | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Lansiwyd Strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022 i 2026 ym mis Mai 2022. |

| | |
|---|---|
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. |

## **Crynodeb**

Mae'r cyd-destun diogelu plant presennol yn un lle gwelir lefelau cyson uchel o alw a chymhlethdod cynyddol. Yn ôl yr awdurdod lleol, bu cynnydd o 44% yn nifer y trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd yn 2022/2023 o gymharu â 2019/2020.  Mae hyn yn gyson â chynnydd tebyg yn nifer yr ymholiadau Adran 47 (cynnydd o 46% yn ystod yr un cyfnod), gan adlewyrchu'r cynnydd yn y galw ar draws gwasanaethau.

Mae heriau cyllidebol, prinder ymarferwyr a marchnad gystadleuol wedi arwain at gyfran fwy o weithwyr newydd gymhwyso ac amhrofiadol mewn asiantaethau partner. Mae hyn yn dwysáu her amddiffyn plant ar draws gweithgarwch amlasiantaethol.

Fodd bynnag, mae ffocws cadarnhaol ar ddiogelu ar draws yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r bwrdd iechyd lleol. Caiff diwylliant o ddiogelu ei hyrwyddo fel cydgyfrifoldeb i bawb. Mae'r cydberthnasau proffesiynol ar draws asiantaethau yn gadarnhaol a chaiff gwahaniaethau proffesiynol eu datrys yn hawdd rhwng uwch-arweinwyr diogelu. Mae arweinwyr a rheolwyr, yn enwedig yn yr awdurdod lleol, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o brofiadau plant a theuluoedd y mae angen eu helpu a'u hamddiffyn yn yr ardal, yn ogystal â maint yr angen a'r risg. Fodd bynnag, mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd ar Fro (BIPCF) gryfhau ei drefniadau llywodraethu er mwyn cefnogi ymarfer diogelu a chofnodi data diogelu allweddol a chraffu arnynt.

Caff gwaith partneriaeth lleol ei gefnogi gan y bwrdd diogelu rhanbarthol. Mae trefniadau llywodraethu'r bwrdd wedi newid yn ddiweddar yn sgil cyflwyno grŵp cyflawni ar gyfer diogelu, sydd â'r nod o wella gwaith monitro, atebolrwydd a chydgysylltiad ar draws y bartneriaeth. Mae hyn wedi helpu i hyrwyddo'r neges bod diogelu yn gydgyfrifoldeb ac yn fater i bawb.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yng nghyd-destun amddiffyn plant ac maent yn cynnal ffocws cadarnhaol ar ymrwymiad. Yn gyffredinol, rhennir gwybodaeth yn briodol ac yn amserol pan gaiff pryderon am ddiogelwch a llesiant plant eu nodi.

Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd amddiffyn plant a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae partneriaid yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae'n gadarnhaol nodi, yn dilyn cynnydd wedi'i dargedu mewn adnoddau, bod presenoldeb yr heddlu mewn cynadleddau adolygu amddiffyn plant wedi gwella'n sylweddol.

Mae'r ymateb amlasiantaethol i atgyfeiriadau diogelu yn gymesur, ar y cyfan, â'r risg a wynebir. Mae ymholiadau amddiffyn plant yn drwyadl, yn canolbwyntio ar

anghenion y plentyn, yn cynnwys asiantaethau perthnasol ac, at ei gilydd, yn arwain at gamau amserol i leihau'r risg o niwed i blant. Weithiau, gall fod oedi cyn cynnal asesiadau a datblygu cynlluniau, er gwaethaf goruchwyliaeth rheolwyr.

Caiff safbwyntiau plant a'u teuluoedd eu clywed. Mae hyn yn amlwg yn y dull ymarfer sy'n datblygu a fabwysiadwyd yng Nghaerdydd, sy'n seiliedig ar gryfderau a datrysiadau. Mae hyn yn rhoi cyfle da i deuluoedd gyfrannu at y broses o ddylunio a chyflwyno cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth (CAGCh).

Mae plant a'u teuluoedd yn cael budd o ddulliau seiliedig ar dystiolaeth sy'n lleihau risgiau ac yn diwallu eu hanghenion. Ceir amrywiaeth o wasanaethau a gefnogir gan asiantaethau, er enghraifft gwasanaeth Goleudy, sy'n darparu ymateb amlasiantaethol mewn argyfwng i blant mewn gofid emosiynol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ariannu amrywiaeth o fentrau sy'n cefnogi plant a theuluoedd y mae trais a niwed yn effeithio arnynt. Mae rhai o'r mentrau hyn yn cynnwys darpariaeth mewn ysbytai a darpariaeth gymunedol.

Mae AGIC wedi nodi nifer o bryderon mewn perthynas â threfniadau diogelu plant BIPCF a allai beri risg uniongyrchol i'w diogelwch. Mae AGIC wedi gofyn i BIPCF ddarparu cynllun gwella ar unwaith yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd a/neu y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, a bod eu diogelwch yn cael ei gynnal. Cyfeirir at y pryderon hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae diogelu disgyblion yn flaenoriaeth uchel mewn ysgolion ac yn yr uned cyfeirio disgyblion ac, o ganlyniad, maent yn fannau diogel i ddisgyblion ddysgu. Mae'r ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda, ac yn diwallu eu hanghenion. Ceir llawer o gyfleoedd i blant gyfrannu at gynlluniau ar eu cyfer a phenderfyniadau a wneir.

Mae'r ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn gwneud cyfraniad sylweddol ac effeithiol at yr ymateb amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod plant yn cael y cymorth a'r amddiffyniad cywir ar yr adeg gywir. Maent yn nodi plant y mae angen eu helpu a'u hamddiffyn ac yn gwneud atgyfeiriadau amserol at wasanaethau gofal cymdeithasol plant pan fo hynny'n briodol, ond gellid gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth cynnar allanol a mynediad atynt. Mae plant yn cael cymorth priodol yn yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion, a defnyddir amrywiaeth gynhwysfawr o raglenni i hybu iechyd a llesiant.

## Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

## Llesiant

### Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau

Mae'r newidiadau i drefniadau llywodraethu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg, drwy ffurfio grŵp cyflawni, yn gadarnhaol o ran sicrhau cyfathrebu effeithlon a chlir, er ei bod yn ddyddiau cynnar yn y broses newid. Mae'r broses o olrhain argymhellion adolygiadau ymarfer oedolion a phlant yn well.

Cydnabyddir bod dadansoddi anghenion hyfforddiant drwy gyfrwng hunanasesiad ar draws y bartneriaeth yn ddatblygiad cadarnhaol, ond mae angen i bob asiantaeth ymrwymo i hyn. Mae'n bwysig bod hyn yn arwain at raglen hyfforddiant ar y cyd sy'n canolbwyntio ar ymarfer. Mae hyfforddiant ac adnoddau a rennir yn cael eu datblygu, ac mae hyfforddiant amlasiantaethol eisoes wedi'i gynnal fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu 2023.

Mae sefydliadau partner yn cydweithio, yn comisiynu ac yn darparu gwasanaethau diogelu yn llwyddiannus. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol 2022-2025 yr awdurdod lleol yn cynnwys amcanion a chanllawiau clir er mwyn sicrhau bod diogelu yn fater i bawb.

Mae enghreifftiau dangosol o bartneriaid yn cydweithio yn cynnwys Heddlu De Cymru yn mynychu cyfarfodydd diogelu mewnol BIPCF, a gynhelir bob deufis, a chyflwyno cofnodion y cyfarfodydd hyn i'r awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu y gellir rhoi gwybod i bartneriaid am faterion diogelu yn BIPCF ac achub ar gyfleoedd i reoli heriau ar y cyd.

Mae gwasanaeth Goleudy yn darparu ymateb mewn argyfwng i blant mewn gofid emosiynol sy'n cyrraedd yr ysbyty ac yn cydgysylltu'r broses o gynllunio cymorth parhaus. Mae'r tîm yn cynnwys seicolegwyr clinigol, staff iechyd meddwl, therapyddion galwedigaethol, cynorthwywyr gweithwyr cymdeithasol a chydgysylltwyr addysg. Mae gan wasanaethau plant weithiwr cymdeithasol CAMHS/llwybr argyfwng ymgynghorol nad yw'n gyfrifol am gynllunio gofal sylfaenol. Mae'r swydd hon yn gweithio ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac mae parch mawr tuag ato ymysg staff o ran galluogi cysylltiadau agosach ar draws gwasanaethau.

Mae enghreifftiau o gydweithio lle ceir pryderon ynghylch cam-drin domestig. Yn yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH), mae trefniadau amlasiantaethol dyddiol yn cynnig cyfle i adolygu amgylchiadau risg uchel. Mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn BIPCF, a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn

cynnwys Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol sy'n gweithio'n benodol gyda phobl ifanc 11-17 oed. Mae arweinydd cam-drin domestig dynodedig ym maes gofal cymdeithasol wedi meithrin cysylltiadau cadarnhaol â gwasanaethau eraill, gan gynnwys partneriaid yn y trydydd sector. Mae deiliad y swydd yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol heb achosion penodol sy'n gyfrifol am arwain ymarfer, datblygu adnoddau ymarfer a darparu hyfforddiant.

Ceir ffocws ar gryfhau'r ymarfer yng Nghaerdydd mewn perthynas â phlant sy'n mynd ar goll. Caiff hyn ei gefnogi gan ymrwymiad strategol i weithio gyda phartneriaid. Mae gweithdrefnau ar waith ac mae cydgysylltydd unigolion coll dynodedig yn gweithio yn y gwasanaeth Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE), sy'n gweithredu fel cyswllt i bartneriaid. Ceir ymrwymiad i sicrhau y caiff protocol unigolion coll ei gymhwyso'n gyson yn ymarferol, wedi'i gefnogi gan ffocws cynyddol ar oruchwylio perfformiad. Er enghraifft, mae'r ymarfer wedi'i gryfhau drwy ddatblygu adnodd delweddu data er mwyn casglu gwybodaeth am unigolion coll, darparu data wythnosol i reolwyr gweithredol ar gyfer pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf, a chynnal cyfarfodydd unigolion coll strategol bob pythefnos yn cynnwys gwasanaeth SAFE a'r Tîm Unigolion Coll.

Mae gweithwyr proffesiynol yn nodi plant y mae angen help a threfniadau amddiffyn arnynt ac yn rhoi gwybod yn briodol am eu pryderon. Mae'r partneriaid yn gwerthfawrogi hygyrchedd ymarferwyr yn MASH a'r cyfle i drafod eu pryderon ag ymarferwyr drws ffrynt cyn cwblhau'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF). Dywedodd un partner '*rydym yn gallu cael cyngor yn hawdd gan MASH sy'n ddefnyddiol ac yn cefnogi'r broses ddiogelu*.'

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Mae ymweliadau Adran 47 un asiantaeth gan weithwyr cymdeithasol yn ymateb a gydnabyddir ledled Cymru, ond ni ddylai fod yn ymateb a arweinir gan gapasiti fel mater o drefn. Er enghraifft, nodwyd oedi cyn ymateb i ddigwyddiad amddiffyn plant, yn rhannol am fod argymhelliad un asiantaeth wedi'i wneud, a bod y cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu wedi arafu wedi hynny. Dywedodd partneriaid fod y penderfyniad i gynnal y cyfryw ymweliadau un asiantaeth yn rhannol gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o ganlyniad i'r newid i gyfraith cosbi corfforol a gallu'r heddlu i ymateb. Mae diffyg profiad perthnasol a hyder hefyd, ynghyd ag oedi posibl cyn troi at swyddogion yr heddlu i ymateb i'r mathau hyn o bryderon.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r broses ar gyfer cyfarfodydd canlyniadau strategol, sydd fel arfer yn cynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau plant, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy e-bost. Mae hyn yn cynnwys ystyried proses feddygol amddiffyn plant. Byddai cyfranogiad ehangach gan asiantaethau partner yn gwella

dealltwriaeth o amgylchiadau plant ac ansawdd y broses o lunio cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

**Asiantaeth Unigol – Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Mae staff BIPCF yn ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn pan fydd plentyn sy'n wynebu risg yn defnyddio eu gwasanaethau, ond gallai hyn gael ei gryfhau drwy roi polisi diogelu sefydliadol ar waith. Mae'r staff yn hyderus y gallant gael cyngor ar ddiogelu mewn modd amserol gan y tîm diogelu. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd yn BIPCF i adolygu penderfyniadau ynghylch diogelu plant. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfarfodydd wythnosol yr adran achosion brys pediatrig ac adolygiadau gan gymheiriaid misol o archwiliadau meddygol amddiffyn plant. Mae'r rhain yn cynnig rhwyd ddiogelwch a goruchwyliaeth ychwanegol mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu (y ddyletswydd i adrodd) a chyfle i ddysgu a gwella ymarfer.

Mae enghreifftiau cadarnhaol o wasanaethau yn cefnogi diogelwch a llesiant plant ac yn gweithio ar draws disgyblaethau. Mae BIPCF wedi meithrin cysylltiadau cadarnhaol â chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol. Mae llwybr iechyd diogelu digidol wedi'i ddatblygu yn ddiweddar er mwyn helpu meddygon teulu i wneud penderfyniadau ynghylch diogelu a rhoi prosesau ar waith.

Mae aelod o staff sy'n gyfrifol am dderbyniadau mynych yn gweithio yn yr adran achosion brys er mwyn mynd ar drywydd achosion o dderbyniadau niferus, a lle y bo'n briodol, gellir trafod hyn yn ystod cyfarfodydd yr adran achosion brys pediatrig. Mae gwasanaeth Argyfwng CAMHS ar gael tan hanner nos, a gellir cael gafael ar y gwasanaeth hwn drwy'r adran achosion brys pediatrig.

Ym maes bydwreigiaeth, mae Bydwraig Diogelu benodol yn darparu cymorth cyson ar draws gwasanaethau mamolaeth. Mae'r Tîm Cyn-Geni yn gweithio'n dda, ac mae cydberthnasau gwaith amlasiantaethol ardderchog wedi'u nodi yn y maes hwn.

Ceir dwy nyrs llesiant emosiynol sy'n cefnogi plant yn yr uned cyfeirio disgyblion a phlant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn.

**Addysg**

Mae ysgolion Caerdydd a'r uned cyfeirio disgyblion yn ceisio datblygu ac annog diwylliant o wella'n barhaus er mwyn sicrhau safonau uchel o ran llywodraethu, gweithredu, a diogelu. Wrth wneud hynny, mae'n yn ymrwymedig i gydweithio'n agored â phartneriaid yn y system addysg.

Mae swyddogion o amrywiaeth o dimau yn rhannu gwybodaeth am ysgolion unigol a'r uned cyfeirio disgyblion yn ystod y cyfarfodydd risg â phob ysgol a gynhelir bob tymor. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i ddeall anghenion ysgolion Caerdydd a'r uned cyfeirio disgyblion ac i ddarparu'r cymorth sydd ei angen.

Mae staff ysgolion ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw dysgwyr yn ddiogel. Mae'r defnydd o lwyfannau digidol ar gyfer pob ysgol, yr uned cyfeirio disgyblion a meysydd gwasanaeth ar draws yr adran addysg yn gwella cysondeb wrth gofnodi pryderon a rhoi gwybod amdanynt. Mae hyn hefyd yn gwella'r cyfathrebu a'r broses o rannu gwybodaeth rhwng ysgolion, yr uned cyfeirio disgyblion a darparwyr gwasanaethau, ac mae'n dechrau cael ei ddefnyddio fel ffordd o fonitro tueddiadau er mwyn targedu ymyriadau.

Mae cyfleoedd rheolaidd i bersonau diogelu dynodedig mewn ysgolion ac yn yr uned cyfeirio disgyblion gyfarfod a chael trafodaeth broffesiynol fel rhan o'r fforwm personau diogelu dynodedig. Mae'r personau diogelu dynodedig yn ymateb yn gyflym i bryderon diogelu ac yn dilyn y gweithdrefnau atgyfeirio cywir. Maent yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag amddiffyn plant ag aelodau allweddol o staff yr ysgol mewn modd priodol a sensitif.

Mae staff ysgolion a staff yr uned cyfeirio disgyblion yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gronoleg disgyblion sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae tystiolaeth bod ffurflenni atgyfeirio amlasiantaethol yn cael eu cyflwyno gan staff ysgolion a staff yr uned cyfeirio disgyblion mewn modd amserol.

Mae'r broses o gyflwyno'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol wedi parhau, mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn cynnig lefel uchel o gymorth emosiynol a llesiant i ddisgyblion agored i niwed drwy Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), THRIVE a dosbarthiadau llesiant.

Mae Caerdydd yn bodloni'r gofyniad statudol a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 drwy ddarparu gwasanaeth cwnsela wyneb yn wyneb mewn ysgolion, a hynny ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghaerdydd ac ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd, ochr yn ochr â gwasanaeth negeseua dros y rhyngrwyd. Mae llawer o ysgolion wedi mabwysiadu dull Meithrin Egwyddorion sy'n helpu disgyblion i feithrin sgiliau cymdeithasol hanfodol, hyder a hunan-barch, a bod yn barod i ddysgu.

Ceir oedolion yr ymddiriedir ynddynt dynodedig mewn ysgolion, y gall disgyblion droi atynt os byddant yn pryderu am rywbeth. Dywed disgyblion bod y bobl hyn yn eu cefnogi ac yn gwrando arnynt os byddant yn teimlo'n ofidus neu'n bryderus.

O fewn Tîm Digidol yr awdurdod lleol, darperir cyfres gynhwysfawr o adnoddau diogelwch ar-lein i bob ysgol a'r uned cyfeirio disgyblion yng Nghaerdydd drwy Hwb a llwyfan dysgu ar-lein Tîm y Cwricwlwm.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r dosbarthiadau llesiant a ddarperir ar draws y ddinas yn barhaus, ac mae wedi cysoni'r ddarpariaeth â'r cod a'r prosesau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Mae gan yr awdurdod lleol dîm dynodedig o weithwyr pontio ADY sy'n cefnogi plant a phobl ifanc o adeg eu geni hyd at 25 oed. Mae'n darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol. Mae'r tîm yn cynnal partneriaethau cydweithredol â rhanddeiliaid.

Mae mwy na 500 o ddysgwyr sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghaerdydd, a gorbryder yw'r rheswm mwyaf cyffredin ond un a roddir dros adael yr ysgol. Mae cronfa addysg ddewisol yn y cartref yr awdurdod lleol yn ariannu swyddogion lleol i olrhain disgyblion a'u cefnogi. Mae hyn yn helpu i gryfhau trefniadau diogelu, lle y bo'n briodol, ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifanc.

Mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg weithdrefn Plant sy'n Colli Addysg ac mae'n chwarae rôl bwysig wrth olrhain pob disgybl sy'n gadael yr ysgol yn ystod y flwyddyn, disgyblion sy'n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, a phlant sy'n symud i'r ardal er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu cyrchfannau nesaf yn ddiogel.

Mae nifer y plant sy'n Osgoi'r Ysgol ar Sail Pryder wedi cynyddu ers iddynt ddychwelyd i'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion yn dilyn y pandemig.  Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Caerdydd wedi llunio canllawiau a hyfforddiant i ysgolion a thaflenni gwybodaeth i rieni a gofalwyr a phobl ifanc.

Mae gan y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (EMTAS) gydberthynas waith sefydledig â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac mae wedi ennyn parch ac ymddiriedaeth teuluoedd. Darperir cymorth penodol ar gyfer pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 a chofrestru mewn ysgolion cynradd, er enghraifft drwy helpu teuluoedd i gwblhau ceisiadau am ysgolion a phontio i'r ysgol uwchradd. Mae'r cymorth penodol hwn yn cael effaith gadarnhaol.

**Heddlu De Cymru**

Gwelsom fod swyddogion yn gwneud defnydd da o faneri a marciau rhybudd i nodi plant agored i niwed, fel y rheini y rhoddwyd gwybod eu bod ar goll. Mae swyddogion ateb galwadau yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r baneri a'r marcwyr hyn i nodi ac asesu lefel y risg yn gyflym, er mwyn llywio'r math o ymateb i ddigwyddiad. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n gyflym.

Mae'r heddlu wedi diwygio a chryfhau ei bolisi ar ymateb i blant coll yn ddiweddar. Caiff digwyddiadau sy'n ymwneud â phlant 11 oed ac iau, pan fyddant ar goll, eu trin yn ddigwyddiadau risg uchel. Roedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau y gwnaethom eu samplu wedi cael eu hasesu a'u graddio'n briodol, ond mae'r heddlu yn cydnabod bod hyn yn waith sy'n mynd rhagddo.

Mae adroddiadau'r heddlu ar gyfer cynadleddau achos cychwynnol yn drylwyr. Mae'r cofnodion yn fanwl ac wedi'u cofnodi ar system yr heddlu, Niche.

**Gwasanaethau Plant**

Yn gyffredinol, mae'r ymarfer diogelu a arweinir gan wasanaethau plant yn seiliedig ar ystyriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch plant, wedi'i chydbwyso ag ystyriaeth o gryfderau eu teuluoedd. Mae enghreifftiau o esboniadau trylwyr o sefyllfaoedd teuluol cymhleth mewn asesiadau sy'n rhoi eglurder ynghylch sefyllfa'r teulu a chylch teuluol uniongyrchol ac ehangach y plant.

Caiff atgyfeiriadau a chofnodion dyletswydd i adrodd eu sgrinio, eu sgorio gan ddefnyddio sgôr Coch Melyn Gwyrdd i ddangos lefel y flaenoriaeth a aseswyd, a'u brysbennu yn MASH. Yn ystod y broses hon, ystyrir cydsyniad rhieni a rhoddir ffocws ar hynny. Yn gyffredinol, caiff risgiau posibl i frodyr a chwiorydd eu hystyried fel rhan o'r broses ddiogelu. Ystyrir hefyd ffactorau diogelu cyd-destunol, ond byddai rhai cofnodion yn cael budd o gynnwys mwy o fanylion i ddangos ystyriaeth ymarferwyr o'r risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â phlant a/neu oedolion agored i niwed.

Ystyrir bod teuluoedd yn ganolog i gynlluniau diogelwch a chyflawni canlyniadau a ddymunir. Mae enghreifftiau da o gynlluniau diogelwch yn cael eu defnyddio, gan bennu disgwyliadau clir rhieni o ran rheoli risgiau. Gellid gwella cysondeb o ran y ffordd y caiff y rhain eu cofnodi er mwyn sicrhau eglurder ynghylch risg, diogelwch a'r hyn y mae angen ei wneud er mwyn rhoi sicrwydd am ddiogelwch.

Mae pwyslais clir ar weithgarwch cynllunio trawsnewidiol am resymau cadarnhaol gyda ffocws clir ar ymarfer. Er enghraifft, ad-drefnu paneli, sy'n cael ei groesawu gan y staff. Mae polisi uwchgyfeirio newydd ym mhroses y Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant a pholisi goruchwyliaeth rheolwyr newydd wedi cael eu datblygu.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro**

Wrth edrych ar ddogfennau'r bwrdd iechyd er mwyn deall y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith, nodwyd digwyddiad a oedd yn peri pryder yn ymwneud â phlentyn a oedd wedi datblygu briwiau pwyso graddfa tri ar y croen fel claf mewnol. Dywedwyd wrth AGIC yr ystyriwyd, yn dilyn ymchwiliad i'r digwyddiad, fod y briwiau pwyso yn rhai na ellid bod wedi'u hosgoi, am fod yr holl asesiadau risg wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, ni chafodd AGIC sicrwydd bod y wybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd yn dangos bod y plentyn wedi cael ei ddiogelu'n briodol. Felly, tynnodd hyn sylw at bryderon yn ymwneud ag adnabod niwed i feinwe'r croen a'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd i ddiogelu plant rhag datblygu niwed o'r fath.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael asesiad iechyd cychwynnol o fewn yr amserlen statudol yn uchel, gan gyrraedd 95% ym mis Tachwedd 2023. Mae

hon yn risg hirdymor. Nid oedd data ar gydymffurfiaeth ar gyfer asesiadau iechyd adolygu statudol ar gael i'r arolygwyr.

Nid yw nyrsys iechyd ysgol yn cynnal asesiadau iechyd ar gyfer plant oed ysgol sy'n destun cynhadledd amddiffyn plant cychwynnol. At hynny, nid yw'r rhan fwyaf o nyrsys ysgol yn gallu cael gafael ar gofnodion meddygon teulu, felly efallai na fyddant yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd plentyn. Argymhellir y dylid cwblhau asesiad iechyd cynhwysfawr ar gyfer pob plentyn oed ysgol er mwyn nodi a oes unrhyw anghenion iechyd i lywio'r CAGCh.

Yng ngoleuni'r materion a nodwyd uchod, anfonodd AGIC lythyr Sicrwydd Ar Unwaith at y bwrdd iechyd yn gofyn am ymateb brys a chynllun gwella i fynd i'r afael â'r pryderon. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn y cynllun gwella.

Mae nifer y systemau TG gwahanol a ddefnyddir yn y bwrdd iechyd yn atal gwybodaeth rhag cael ei chasglu a'i rhannu mewn modd amserol. Nid yw dogfennau diogelu allweddol bob amser yn cael eu cofnodi, a dim ond gwybodaeth gyfyngedig a geir mewn cofnodion eraill. Mae hyn yn golygu nad yw manylion pwysig am gynlluniau gofal a chymorth a chyfarfodydd amlasiantaethol bob amser ar gael i lywio cynnydd mewn perthynas â diogelwch a llesiant plentyn.

Cyfrifoldeb un ymarferydd yw cyflawni rôl y fydwraig diogelu arweiniol. Mae'n gylch gwaith mawr sy'n anghymesur i weddill y tîm diogelu. Rhoddwyd y gorau i feysydd gwasanaeth a gynigiwyd yn flaenorol gan y tîm diogelu i staff mamolaeth (goruchwyliaeth a hyfforddiant Lefel 3 i fydwragedd mewn ysbytai). Mae hyn yn peri risg bosibl ac mae angen ei ailystyried.

### Addysg

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

### Heddlu De Cymru

Roedd ôl-groniad o geisiadau am gynllun datgelu trais domestig i'w prosesu ar adeg yr arolygiad. Mae'r heddlu wedi cydnabod yr ôl-groniad hwn ac mae'n gweithio i'w leihau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae oedi cyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhannu gwybodaeth yn ymwneud â diogelu â dioddefwyr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

### Gwasanaethau Plant

Mae Datganiad Perfformiad Blynyddol 2022/2023 yr awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru yn nodi, yn achos 44% o'r cysylltiadau, nad oedd penderfyniad wedi'i wneud erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. Mae'r un set ddata yn cofnodi niferoedd uchel

o blant na chawsant eu gweld fel rhan o asesiad llesiant. Mae hwn yn faes y mae angen i'r awdurdod lleol fynd i'r afael ag ef a'i ddeall yn well. Fodd bynnag, yn MASH, caiff atgyfeiriadau eu sgrinio gan ymarferwyr gan ddefnyddio graddfeydd i bennu lefel y flaenoriaeth (isel, canolig, sylweddol). Mae hon yn broses bwysig yn wyneb y galw cynyddol.

Mae anghysondeb mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r amserlenni statudol ar gyfer ymholiadau Adran 47 ac amseroldeb ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a phlant a enwir ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae angen gwella'r meysydd hyn gan eu bod yn elfennau hanfodol o brosesau diogelu. Dylai cofnodion nodi'n glir y rhesymeg dros unrhyw wyriad oddi wrth amserlenni perthnasol. Mae angen mynd i'r afael ag amseroldeb y grŵp craidd cyntaf yn dilyn cynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol hefyd. Caiff rhai grwpiau craidd eu hoedi ar fyr rybudd, a gall hyn arwain at oedi cyn gwneud diweddariadau pwysig i'r CAGCh.

Gellid cryfhau trafodaethau strategaeth a grwpiau craidd drwy sicrhau bod dogfennau allweddol yn cael eu rhannu â'r rhai sy'n bresennol a phartneriaid absennol. Byddai hyn yn galluogi pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ddiweddariadau i gynlluniau a'u rôl wrth amddiffyn plant. Mae'n galonogol nodi bod gwasanaethau plant wedi cyflwyno Prosiect Adnoddau Grwpiau Craidd newydd a fydd yn sicrhau'r ffocws gofynnol ar arferion grwpiau craidd.

Yn gyffredinol, mae'r systemau'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau o fewn yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn ymwybodol o brofiad bywyd plant. Fodd bynnag, mae sefyllfaoedd lle mae oedi sylweddol o fewn yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus. Dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn goruchwylio achosion o'r fath yn amserol er mwyn atal oedi cyn diwallu anghenion plant am ddiogelwch a sefydlogrwydd. Mae hyn wedi dechrau drwy ad-drefnu panel, cofnodi camau gweithredu a neilltuo adnoddau cymorth busnes er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth gynllunio sefydlogrwydd.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau wrth ymateb i risg. Mewn ambell sefyllfa, gwelsom y byddai staff yn cael budd o hyfforddiant ar gamfanteisio, diogelu pobl ifanc, ac ymddygiad sy'n niweidiol yn ddiwylliannol.

Mae'r defnydd a wneir o genogramau, ecofapiau a chronolegau yn amrywio, a dywedodd ymarferwyr wrthym fod capasiti gweithwyr dynodedig yn effeithio ar hyn. Mae'r rhain yn adnoddau pwysig i ddeall cyd-destun a helpu ymarferwyr i resymoli'r penderfyniadau a wneir.

## Pobl

### Trefniadau partneriaeth – Cryfderau

Eleni, cafodd Caerdydd ei henwi'n ddinas ystyriol o blant gyntaf y DU. Mae hon yn wobr fyd-eang sy'n dathlu dinasoedd lle mae hawliau plant yn rhan o'r penderfyniadau a'r polisïau a wneir gan lywodraeth leol. Ers 2017, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda sefydliadau ar hyd a lled y ddinas er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gyfrannu at feysydd fel arweinyddiaeth, cyfathrebu, diwylliant ac addysg.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda theuluoedd ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu bywydau. Mae cryfderau ac arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn amlwg mewn cynadleddau achos amddiffyn plant. Mae enghreifftiau o arferion gorau yn cynnwys y defnydd o iaith syml wrth gyfathrebu â rhieni a ffocws clir ar yr hyn y mae angen i rieni ei newid. Mae'r defnydd o gwestiynau graddfa yn helpu'r grŵp amlasiantaethol i ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn pryderu amdano.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd deall amgylchiadau unigol y plentyn, ond mae angen cryfhau'r broses o gofnodi llais y plentyn.

Gellid gwella'r broses o gofnodi ethnigrwydd ac iaith mewn cofnodion iechyd a chofnodion yr heddlu. Mae hyn yn bwysig er mwyn ymateb yn briodol i boblogaeth amrywiol Caerdydd. Dylai arweinwyr sicrhau y caiff gwybodaeth ddemograffig bwysig ei chofnodi'n gywir ac yn glir.

### Asiantaeth Unigol – Cryfderau

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae gan BIPCF Fwrdd Ieuenctid sydd wedi'i sefydlu'n dda, ac ymgynghorir â'r bwrdd hwn ynghylch mentrau perthnasol, gwaith datblygu polisi a chyfweliadau â staff perthnasol. Mae cynrychiolydd o'r tîm diogelu yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd.

Mae staff BIPCF a meddygfeydd yn gwerthfawrogi cymorth a chyngor y tîm diogelu, ond mae'n amlwg bod nifer y galwadau yn gallu effeithio ar amseroldeb yr ymateb ar adegau.

Yn gyffredinol, caiff llais y plentyn ei gofnodi'n dda, ond gallai hyn gael ei gryfhau mewn rhai cofnodion. Mae enghreifftiau o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys yn eu hasesiadau iechyd a'r broses o gynllunio eu gofal. Mae hyn yn cynnwys

sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' a sgyrsiau yn seiliedig ar gryfderau, gan gofnodi dymuniadau a theimladau. Ceir cydberthynas gydweithredol rhwng staff gofal iechyd a phlant ac mae tystiolaeth bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am faterion iechyd.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn cael cymorth diogelu a goruchwyliaeth mewn modd amserol wrth wneud penderfyniadau pwysig yn ymwneud â diogelu plant. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio eu gwybodaeth i herio a chefnogi ymarferwyr a hyrwyddo gwelliant parhaus.

**Addysg**

Mae diogelu yn rhan greiddiol o waith arweinwyr a swyddogion yn y gyfarwyddiaeth addysg ac yn rhan o agenda cyfarfodydd yr Uwch-dîm Arwain a chyfarfodydd eraill bob amser.  Mae uwch-swyddogion addysg yn cyfarfod â chydweithwyr o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant yn fisol er mwyn trafod amrywiaeth eang o faterion cyfredol yn ymwneud â diogelu.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd datblygu a chefnogi diwylliant, prosesau a systemau diogelu cryf ar lefel gorfforaethol a lefel yr ysgol. Ceir cysylltiadau cryf â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant a'r Tîm Diogelu Addysg yn arbennig, sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth hon.

Mae'r aelod etholedig dros addysg yn ymrwymedig iawn i ddiogelu. Mae pob aelod etholedig yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu corfforaethol ar ôl cael ei benodi.

Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r gwelliannau i waith amlasiantaethol sy'n cryfhau'r trefniadau diogelu mewn ysgolion ac yn yr uned cyfeirio disgyblion. Mae'r Tîm Diogelu Addysg yn darparu lefel uchel o gymorth i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyngor amserol, diweddariadau rheolaidd am ddiogelu a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer personau diogelu dynodedig a llywodraethwyr.

Dosberthir adnodd proffil asesu bregusrwydd y Gwasanaeth Ieuenctid i ysgolion deirgwaith y flwyddyn, lle y caiff statws risg ei boblogeiddio gan ganolbwyntio ar ddata penodol fel nifer y symudiadau rhwng ysgolion, gwaharddiadau, prydau ysgol am ddim a statws plant sy'n derbyn gofal, er mwyn nodi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed.  Mae ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn adolygu ac yn diweddaru statws disgyblion er mwyn nodi'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio o'r ysgol, bod yn agored i niwed yn y gymuned, neu y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Caiff achosion eu brysbennu gan y Tîm Perfformiad a Llywodraethu fel bod modd rhoi cymorth pontio penodol ar waith. Darperir cymorth i ddisgyblion Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 mewn ysgolion arbennig prif ffrwd a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ariannu'r broses o gyflwyno system electronig gyffredin ar gyfer cofnodi pryderon diogelu mewn ysgolion ac yn uned cyfeirio disgyblion, ac mae hyn wedi gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth. Mae llawer o ysgolion hefyd yn dechrau defnyddio'r system hon yn briodol i gofnodi achosion o fwlio. Mae swyddogion wedi gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i lunio canllawiau defnyddiol ar adnabod honiadau o fwlio, eu cofnodi a delio â nhw.

Dywed y rhan fwyaf o ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion fod y Tîm Diogelu Addysg yn trefnu hyfforddiant rheolaidd a defnyddiol i ysgolion a llywodraethwyr ar amddiffyn plant, yn ogystal â chynnal amrywiaeth ehangach o sesiynau diogelu cyd-destunol. Mae'r staff perthnasol yn cael amrywiaeth o hyfforddiant gwerth chweil, er enghraifft hyfforddiant ar Prevent a Thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canolbarth y De, yn trefnu rhaglen flynyddol o hyfforddiant i lywodraethwyr.

Defnyddir eiriolwyr yn briodol; maent yn ymweld â disgyblion mewn ysgolion er mwyn cofnodi safbwyntiau disgyblion am faterion pwysig. Mae dysgwyr yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt ac yn rhoi cymorth a llais iddynt. Yn gyffredinol, ceir cydberthnasau cadarnhaol rhwng ysgolion a rhieni.

Mae gan ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion ddealltwriaeth dda o'r materion a wynebir gan ddisgyblion a'u teuluoedd yn eu cymunedau unigol, er enghraifft effaith yr aflonyddwch yng nghymuned Trelái yn 2023 ar deuluoedd. Darperir cymorth penodol i gymunedau yn rhannol drwy'r gwasanaethau ieuenctid. Fel ymateb uniongyrchol i'r aflonyddwch yng nghymuned Trelái, cynyddodd y gwasanaeth ieuenctid y cymorth ar y stryd, er mwyn casglu safbwyntiau a meddyliau pobl fanc a'r gymuned ehangach.

**Heddlu De Cymru**

Mae arweinwyr yr heddlu yn rhoi ffocws clir ar fregusrwydd. Mae nifer o gyfarfodydd llywodraethu strwythuredig ar waith yn yr heddlu i reoli achosion amddiffyn plant a bregusrwydd ehangach. Cynhelir cyfarfodydd perfformiad cam-drin domestig lleol ym mhob Uned Reoli Sylfaenol, gan gynnwys un ar gyfer Caerdydd; ymddengys fod camau gweithredu yn glir ac yn canolbwyntio ar ddeall sut y gallai data ansoddol effeithio ar blant. Er enghraifft, mae rheolwyr yn defnyddio eu dangosfwrdd i nodi unrhyw hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd a gollwyd, ac maent yn defnyddio'r broses hon i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl a'u rhannu â phartneriaid. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei bod yn golygu bod partneriaid yr heddlu yn cael y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau amserol.

**Gwasanaethau Plant**

Mae uwch-reolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y boblogaeth, ac mae gwasanaethau yn ymateb mewn modd cyson. Ceir grŵp uwch-reolwyr profiadol, ac yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol gan y staff am y cymorth y maent yn ei gael.

Mae cymorth a goruchwyliaeth y rheolwyr yn amlwg ac, unwaith eto, cafwyd adborth cadarnhaol gan grwpiau o staff. Caiff penderfyniadau ynghylch diogelu eu goruchwylio gan reolwyr a cheir cyfleoedd i ymgynghori ar ymarfer. Mae goruchwyliaeth y rheolwyr yn cynnig arweiniad a chymorth i ymarferwyr wrth fyfyrio ar amgylchiadau teuluol cymhleth.

Ceir grŵp o staff ymroddedig ac ymrwymedig, a ffocws amlwg ar ddiogelwch a llesiant. Bu'n rhaid i'r awdurdod lleol ddibynnu ar nifer mawr o staff dros dro (gweithwyr asiantaeth) er mwyn cynnal tîm sy'n ategu ac yn cefnogi cadernid y gweithlu. Mae'n gadarnhaol nodi bod nifer y swyddi gwag yn lleihau a bod mwy o staff parhaol wedi'u cyflogi. Mae hyn yn bwysig gan y bydd yn helpu i gynyddu parhad ymarferwyr i blant a theuluoedd, a fydd, yn ei dro, yn gwella ymddiriedaeth a hyder mewn cydberthnasau.

Mae arweinwyr ac uwch-reolwyr yn ymrwymedig i wneud gwelliannau er mwyn cefnogi llesiant plant. Mae pwyslais cryf ar gyflawni a monitro gwelliannau mewn gwasanaethau plant o hyd. Mae systemau gwell wedi'u rhoi ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a safonau arfer da. Mae'r dull o sicrhau ansawdd ac archwilio, er ei fod yn dal i gael ei ddatblygu, yn effeithiol, ac mae cydymffurfiaeth yn gwella. Ceir ymrwymiad dilys i weithio tuag at “sut beth yw da” a'r hyn sy'n bwysig yn ymarferol. Mae'r broses o rannu a lledaenu gwersi a ddysgwyd drwy'r tîm sicrhau ansawdd yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud gan yr arweinwyr ymarfer a digwyddiadau materion ymarfer, er enghraifft.

Mae dangosfwrdd data perfformiad ar gael i ymarferwr. Mae hyn yn fuddiol i roi trosolwg o'r gwaith i'w gyflawni a'r amserlenni. Caiff y data hyn eu hadolygu gan reolwyr er mwyn monitro ymarfer yn barhaus, a gellir defnyddio cydymffurfiaeth ag amserlenni statudol i nodi'r meysydd lle mae angen adnoddau.

Cydnabyddir pwysigrwydd cael cydsyniad rhieni, lle y bo'n briodol, yn enwedig mewn perthynas ag atgyfeiriadau a geir yn MASH. Yn gyffredinol, caiff llais y plentyn a rhieni ei hyrwyddo yn MASH, gan gynnwys ystyried amgylchiadau brodyr a chwiorydd.

Mae enghreifftiau ardderchog o waith sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda phlant, er mwyn ennyn eu hymddiriedaeth a sicrhau eu bod yn cyfrannu at eu cynlluniau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r ymarferwyr wedi bod yn ofalgar, yn gyson ac yn greadigol

er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i ddeall. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae gwaith uniongyrchol wedi'i wneud gyda grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd, er mwyn deall eu hanghenion unigol. Gellid cryfhau'r ymarfer drwy sicrhau bod y gwaith a wnaed gyda phlant yn cael ei gofnodi'n fwy cyson mewn cofnodion.

Yn y rhan fwyaf o asesiadau a chynlluniau, mae ymarferwyr yn cofnodi'r hyn sy'n bwysig i bobl yn glir drwy rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda, unrhyw bryderon, a'r hyn y mae angen ei wneud. Mae rhieni a phlant yn cael eu cynnwys mewn ffordd gadarnhaol yn eu CAGCh. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn grwpiau craidd a chynadleddau achos amddiffyn plant yn rheolaidd. Mae pob cynhadledd achos amddiffyn plant yn dechrau gyda chiplun o bob plentyn, ac mae enghreifftiau da o gadeirydd y gynhadledd yn crynhoi canlyniadau'r gynhadledd yn y person cyntaf. Mae'r rhan fwyaf o ymholiadau Adran 47 yn dangos profiad bywyd y plentyn ac yn cynnwys gwaith dadansoddiad da i gefnogi penderfyniadau cymesur.

Nid yw plant bob amser yn cael gwybodaeth gan eu gweithwyr cymdeithasol, fel adroddiadau, ac nid yw cadeiryddion cynadleddau bob amser yn cyfarfod â phlant cyn y gynhadledd achos amddiffyn plant. Llwyth gwaith mawr yw'r prif reswm dros hyn. Fodd bynnag, dywed rhieni a phlant fod ymarferwyr yn gefnogol ac yn cyfathrebu'n dda. Mae cadeiryddion cynadleddau yn cyfarfod yn gyson â rhieni ar y diwrnod cyn y gynhadledd o leiaf, er mwyn esbonio'r hyn fydd yn digwydd, eu paratoi, ac ateb unrhyw gwestiynau.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi dechrau defnyddio cynorthwywyr gwaith cymdeithasol i gyflawni rolau a gyflawnwyd yn flaenorol gan weithwyr cymdeithasol cymwysedig. Mae hyn yn cynnwys arweinydd rheoli achosion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn gweithio'n foddhaol pan fydd lefelau priodol o gymorth goruchwyliol, cydweithio a mentora ar waith. Cawsom adborth cymysg ar hyn, gydag adborth cadarnhaol gan asiantaeth bartner a ddywedodd fod cymorth cynorthwywyr gwaith cymdeithasol yn golygu bod llai o newid o ran gweithwyr a mwy o gysondeb i'r plentyn sy'n derbyn gofal. I'r gwrthwyneb, nododd rhai fod cymhlethdod rhai sefyllfaoedd yn anodd i gynorthwywyr gwaith cymdeithasol fynd i'r afael ag ef.

Yn gyffredinol, ceir ymrwymiad i gefnogi plant drwy eiriolaeth, a phwyslais ar hynny. Mae amser ac adnoddau wedi'u buddsoddi i weithio gyda'r darparwr eiriolaeth mewn perthynas â'r cynnig rhagweithiol, ac roedd hyn yn amlwg. Mewn rhai achosion, gellid bod wedi hyrwyddo eiriolaeth yn well er mwyn galluogi lleisiau pobl i gael eu deall yn well. Mae Ap ar gael i annog plant a phobl ifanc i ymgysylltu, ond mae defnydd ymarferwyr ohono yn anghyson, yn rhannol am nad yw rhai plant yn dymuno defnyddio Ap at y diben hwn.

Mae ymarferwyr a phartneriaid yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion diwylliannol y plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw ac ymwybyddiaeth o

bwysigrwydd ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant wedi'i gydbwyso â'r angen i amddiffyn a diogelu plant rhag niwed. Mae hyfforddiant wedi canolbwyntio ar 'arferion diwylliannol gymwys', ac mae gwasanaethau cyfieithu ar gael i deuluoedd, er y gall fod yn anodd dod o hyd i gyfieithwyr ar gyfer rhai ieithoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn goruchwylio rhuglder ei weithlu yn y Gymraeg er mwyn gallu darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'n ymrwymedig i gryfhau hyn drwy ganolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu a gwasanaethau, archwilio, casglu data a datblygu staff. Mae ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn gweithio ar draws gwasanaethau plant.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Cyfradd gydymffurfio BIPCF â hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu yw 75%. Nid yw hyn yn gyson â'r Safon Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Genedlaethol, sef 85%. Felly, dylai'r bwrdd iechyd ailystyried ei darged lleol i gydymffurfio â'r safon genedlaethol, sef 85%.

Nid yw BIPCF yn mandadu hyfforddiant Lefel 3 ar ddiogelu. Nid yw hyn yn gyson ag argymhelliad Prif Swyddog Nyrsio Cymru, a amlinellir yn y ddogfen ryng-golegol, "Safeguarding Children and Young People: Roles and Competencies for Healthcare Staff". Mae rhai grwpiau o staff yn cwblhau hyfforddiant Lefel 3, ond nid yw'r data hyn yn cael eu cofnodi'n ganolog, felly nid oes unrhyw ddata dibynadwy ar gael. Ymddengys nad yw rhai grwpiau o staff yn gwybod pa lefel o hyfforddiant ar ddiogelu sydd ei hangen arnynt ar gyfer eu rôl. Nid oes unrhyw ddata i ddangos a yw aelodau'r bwrdd yn cydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu. Anfonodd AGIC lythyr Sicrwydd Ar Unwaith i'r bwrdd iechyd yn gofyn am ymateb brys a chynllun gwella i fynd i'r afael â'r pryder hwn ac, er hynny, mae wedi derbyn y cynllun gwella.

Yn amserlen hyfforddiant 2023/2024, cafodd 50% o hyfforddiant Lefel 3 ar ddiogelu plant ei ganslo o ganlyniad i bwysau llwyth gwaith yn y Tîm Diogelu. Niferoedd bach iawn o staff o fynychodd yr hyfforddiant a gynhaliwyd, a dywedodd rhai aelodau o'r staff fod diffyg hyfforddiant i gefnogi eu rôl.

Prin yw'r wybodaeth a rennir gan y Grŵp Llywio Diogelu yng nghyfarfodydd y Byrddau Clinigol. Prin hefyd yw'r data ar sicrwydd diogelu a gyflwynir i'r Grŵp Llywio Diogelu ac nid yw'r Tîm Diogelu yn ymwybodol o rai risgiau diogelu (er enghraifft briwiau pwyso ar Uned Gofal Dwys Pediatrig a chydymffurfiaeth asesiadau iechyd statudol plant sy'n derbyn gofal). Nid yw uwch-gynrychiolwyr y Byrddau Clinigol yn bresennol yn gyson. Dylai BIPCF fodloni ei hun fod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i gofnodi gwybodaeth am ddiogelu craffu arni a'i rhannu, ac y caiff risgiau a sicrwydd diogelu eu rhannu fel mater o drefn ar lefel weithredol.

Mae nifer cynyddol yr achosion diogelu a'u cymhlethdod, ynghyd â'r agenda diogelu sy'n ehangu, yn effeithio ar allu'r Tîm Diogelu i roi sicrwydd ynghylch ymarfer diogelu ym mhob rhan o BIPCF.

Er bod rhai meysydd arbenigol yn dilyn prosesau llywodraethu yn ymwneud â datblygu polisi, nid yw nifer sylweddol o'r dogfennau a rennir gan BIPCF yn cynnwys dyddiadau, enw'r awdur, manylion y perchennog, rhif y fersiwn na dyddiadau adolygu. Er mwyn osgoi dryswch a sicrhau bod y staff yn dilyn y prosesau cywir, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a monitro dogfennau o'r fath yn sylweddol.

Yn absenoldeb polisi diogelu cyffredinol yn BIPCF, mae rhai Byrddau Clinigol wedi datblygu eu polisïau a'u dogfennau canllaw eu hunain. Mae hyn yn peri risg y gall yr ymarfer diogelu fod yn anghyson wrth i wasanaethau weithio mewn ffyrdd gwahanol ar draws y sefydliad.  Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn y llythyr Sicrwydd Ar Unwaith y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, ac ers hynny, mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd i AGIC ynghylch ei gynlluniau i ystyried cyflwyno polisi diogelu sefydliadol.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar gydymffurfiaeth sesiynau goruchwylio mewn perthynas â diogelu eu casglu. Argymhellir y dylid mynd i'r afael â hyn er mwyn i BIPCF fodloni ei hun fod pob aelod o staff sy'n gweithio'n agos gyda phlant lle ceir pryderon diogelu, yn mynychu sesiynau goruchwylio rheolaidd.

Nid yw llais a safbwynt y plentyn yn gyson amlwg yng nghofnodion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

**Addysg**

Nid yw'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion na'r uned cyfeirio disgyblion gyflwyno archwiliadau diogelu blynyddol na rheolaidd. O ganlyniad, nid oes ganddo drosolwg digonol o ganlyniadau archwiliadau ac ni all wybod a yw ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn eu cwblhau'n rheolaidd. Nid yw swyddogion yn gwybod digon am gryfderau ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion na'r meysydd y mae angen eu datblygu mewn perthynas â diogelu.

Mae'r awdurdod lleol yn casglu data ar fwlio pan fyddant yn cael eu cofnodi ar y system diogelu electronig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw swyddogion yn dadansoddi'r data er mwyn nodi tueddiadau ac nid yw'n herio ysgolion na'r uned cyfeirio disgyblion os nad fyddant yn cyflwyno data.

**Heddlu De Cymru**

Mae angen i'r heddlu ddatblygu'r ffordd y mae'n coladu ac yn defnyddio data demograffig mewn modd ansoddol i ddeall profiadau plant a lleihau'r risg i blant. Er

enghraifft, data ar droseddau a digwyddiadau, wedi'u hategu gan wybodaeth ddemograffig fel iaith, anabledd, neu ffactorau niwroamrywiaeth. Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o'r data hyn wedi'u cofnodi (er enghraifft ethnigrwydd, anabledd neu iaith).

Nid yw'r heddlu yn cofnodi'n briodol a yw plant wedi cael eu gweld neu a oes rhywun wedi siarad â nhw,  sy'n golygu nad yw eu llais yn cael ei gofnodi mewn rhai achosion. Yn aml, nid yw hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd yn nodi'n glir a oedd plentyn yn bresennol yn ystod digwyddiad a ph'un a gafodd ei weld ai peidio. Lle mae ymchwiliad clir gan y tîm cam-drin plant, mae llais y plant yn amlwg.

**Gwasanaethau Plant**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

## Partneriaethau ac Integreiddio

### Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau

Mae cydnabyddiaeth ddiweddar UNICEF i Gaerdydd fel dinas ystyriol o blant gyntaf y DU yn atgyfnerthu ei huchelgais a'i hymrwymiad i blant a phobl ifanc ar hyd a lled y ddinas. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn deillio o waith partneriaeth cryf ym mhob rhan o'r ddinas.

Mae partneriaid wedi ymrwymo i gydweithio i ddiogelu plant sy'n wynebu risg o niwed a chamdriniaeth. Mae hyn yn amlwg drwy gyfranogiad cadarnhaol partneriaid mewn cyfarfodydd a thrafodaethau amlasiantaethol pwysig, a'r ffocws amlwg ar gryfderau a phryderon teuluoedd.

Gellid gwella rhai systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall pob asiantaeth wneud penderfyniadau amserol. Fodd bynnag, wrth edrych i'r dyfodol, mae Adroddiad Unigol yn brosiect a arweinir gan awdurdod lleol a fydd yn casglu data gan amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ynghyd mewn un system i greu un cofnod ar gyfer plentyn. Mae tîm y prosiect yn gobeithio creu cynnyrch hyfyw yn barod i'w dreialu mewn ysgolion yn 2024.

Mae partneriaethau yn gwneud cyfraniad effeithiol ar benderfyniadau ynghylch diogelu ac mae ganddynt yr hyder i herio ei gilydd mewn modd adeiladol. Mae tystiolaeth o drafodaeth a her iach mewn grwpiau craidd a chynadleddau. Mae gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol brotocol ar gyfer datrys gwahaniaethau proffesiynol ac, yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r protocol hwn ac yn teimlo'n hyderus i herio penderfyniadau a/neu geisio cyngor gan eu rheolwyr. Dylid ystyried casglu a chofnodi safbwyntiau proffesiynol gwahanol nad ydynt yn rhan o gwmpas y protocol, er mwyn llywio dysgu a gwelliant parhaus.

Mae trefniadau MASH yn amlddisgyblaethol, ac mae partneriaid yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Pan fydd angen rhannu gwybodaeth yn ymwneud â diogelu (gan gynnwys y ddyletswydd i adrodd), caiff hyn ei gwblhau mewn modd amserol ar y cyfan. Er enghraifft, caiff gwybodaeth ei rhannu'n brydlon rhwng asiantaethau yn ystod cyfarfodydd cam-drin domestig amlasiantaethol dyddiol. Yn ystod y fforymau hyn, gwneir defnydd effeithiol o amser a chaiff trafodaethau strategaeth eu cynnwys yn yr agenda.

Mae proses yn bodoli i sicrhau bod prosesau rhannu gwybodaeth ac asesiadau risg cam-drin domestig yn gyson ar draws timau. Mae rheolwyr yn defnyddio eu dangosfwrdd i nodi unrhyw hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd a gollwyd, ac maent yn defnyddio'r broses hon i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl a'u rhannu â phartneriaid.

Ceir gwaith partneriaeth cryf a defnyddir timau arbenigol i gefnogi anghenion llesiant disgyblion yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel Cyfarfodydd Ysgol o Amgylch y Clwstwr, prosiect SAFE, y Pennaeth plant sy'n derbyn gofal rhithwir, a'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr. Mae hyn yn hyrwyddo diogelu cyd-destunol, llesiant emosiynol disgyblion, a chyfle da i wella canlyniadau.

Mae model gweithio sy'n nodi achosion o niwed cyd-destunol mewn cymunedau ac yn mynd i'r afael â nhw wedi'i ddatblygu yng Nghaerdydd. Mae model SAFE yn cydnabod y gall plant a phobl ifanc gael niwed wrth i oedolion a/neu gyfoedion eraill y tu allan i'r rhwydwaith teuluol gamfanteisio arnynt a'u cam-drin, neu y gallant wynebu risg o hynny. Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Waddol Ieuenctid i gyflwyno prosiect Cadw'n Ddiogel, sy'n anelu at fynd i'r afael â thrais gan bobl ifanc a chamfanteisio troseddol.

Mae amrywiaeth o uwch-swyddogion addysg yn cefnogi panel risg uchel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid / gwasanaethau plant i ystyried ffyrdd o leihau risg i bobl ifanc yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uchel, gan gynnwys risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Mae partneriaeth ar draws yr awdurdod lleol yn cefnogi Cydweithrediad Cwricwlwm SAFE. Fel rhan o'r cydweithrediad hwn, mae amrywiaeth o bartneriaid amlasiantaethol yn cydweithio i sicrhau bod adnoddau ac ymyriadau cydlynol ac effeithiol ar waith i ymgorffori negeseuon craidd SFAE ym maes iechyd a lles y cwricwlwm. Darperir amrywiaeth o hyfforddiant addysg cydberthynas a rhywioldeb i ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion, gan gynnwys creu a chyflwyno cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb priodol.

Mae prosiectau mewn ysgolion yn cynnwys yr Heddlu Bach, sy'n cyflwyno plant i brofiadau cadarnhaol o blismona mewn partneriaeth â thîm Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu De Cymru, yn ogystal â gwaith helaeth ar droseddau cyllyll ledled y ddinas.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Mae rhai staff wedi awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynllun cyfarfodydd wyneb yn wyneb/hybrid/rhithwir, yn enwedig mewn perthynas â chynadleddau achos amddiffyn plant a grwpiau craidd. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi nodi'r angen am ddull eglur, a phwysigrwydd hynny. Mae adborth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfarfod wyneb yn wyneb wrth ystyried materion cymhleth a sensitif.

Dywed aelodau'r Tîm Nyrsio Plant sy'n Derbyn Gofal nad ydynt yn cael gwybod am leoliadau mewn modd amserol, a bod hyn yn effeithio ar eu cydymffurfiaeth ag amserlenni statudol. Ni chaiff meddygon teulu eu gwahodd i gynadleddau achos amddiffyn plant ac ni ofynnir iddynt ddarparu adroddiadau ar eu cyfer fel mater o drefn. Ni chaiff cofnodion cynadleddau achos amddiffyn plant eu hanfon at feddygon teulu fel mater o drefn. Mae hyn yn golygu y gall gwybodaeth hanfodol gael ei cholli.

Mae trefniadau Tîm Dyletswydd Brys ar waith i ymateb i bryderon diogelu y tu allan i oriau gwaith arferol. Trefniant rhanbarthol yw hwn.  Nodwyd profiadau amrywiol o ran hygyrchedd y Tîm Dyletswydd Brys. Nodwyd materion yn ymwneud â'r ffaith bod y tîm yn adrodd yn uniongyrchol i CareFirst. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau sydd ar waith i gael gafael ar y Tîm Dyletswydd Brys, a'r modd y mae'r Tîm yn cofnodi gwybodaeth bwysig.

Dylai arweinwyr a phartneriaid gydweithio i sicrhau dealltwriaeth glir o'r trothwyon ar gyfer cyflwyno Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaethol er mwyn sicrhau ymateb effeithlon a chymesur i reoli'r galw. Nododd data partneriaeth ar gyfer 2022/2023 fod 82% o'r cysylltiadau wedi cael eu cyfeirio at MASH a bod 18% wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth cynnar. Mae uwch-reolwyr wedi nodi'r anghydbwysedd hwn yn flaenorol.  Mae canllawiau ar atgyfeirio eisoes ar gael, ond er gwaethaf mewnbwn amlasiantaethol wrth eu datblygu, nid yw'r canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae hyn yn golygu bod partneriaid allweddol fel staff ysgolion yn rhoi gwybod yn gyson i MASH am lawer o bryderon heb fanteisio ar gymorth gwasanaethau cymorth cynnar lle y gall hynny fod yn briodol.

Dylid rhoi gwybod i bartneriaid atgyfeirio am ganlyniad adroddiadau diogelu mewn modd amserol yn gyson. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo dealltwriaeth a rennir o benderfyniadau a rhesymeg.

Mae ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn derbyn hysbysiadau Ymgyrch Encompass yn brydlon.  Weithiau, byddai gwybodaeth ychwanegol yn helpu i wella dealltwriaeth staff ysgolion. Mae hyn yn effeithio ar allu ysgolion i gefnogi plant yn briodol. O gofio bod rhai partneriaid wedi nodi y gall fod oedi wrth geisio cysylltu â staff gwasanaethau plant yn MASH am ragor o wybodaeth neu ddiweddariadau, gall hyn atal staff ysgolion rhag cefnogi plant a chymryd camau priodol.  Mae'r broblem hon yn deillio'n rhannol o'r ffaith nad yw'r heddlu'n anfon hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd llawn at ysgolion mwyach o ganlyniad i heriau yn ymwneud â chydymffurfio â'r GDPR. Byddai staff ysgolion yn cael budd o gael diweddariadau gan yr heddlu, er enghraifft ynghylch a wnaed arestiad yn dilyn yr hysbysiad amddiffyn y cyhoedd a gwybodaeth berthnasol arall a allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi disgyblion. Nid yw partneriaid wedi cytuno ar broses i wella effeithiolrwydd Ymgyrch Encompass yng Nghaerdydd.

Mae'r bartneriaeth wrthi'n adolygu trefniadau MASH ac, fel rhan o'r gwaith hwn, dylid gwerthuso manteision cyd-leoli gweithwyr proffesiynol wyneb yn wyneb mewn un lleoliad. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwireddu manteision cydweithio, boed hynny'n rhithwir neu wyneb yn wyneb.

**Asiantaeth Unigol – Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Mae ymrwymiad BIPCF i wella'n barhaus yn amlwg drwy ei gyfraniad at fusnes y bwrdd diogelu, gan gynnwys craffu ar adolygiadau ymarfer plant a dysgu ohonynt.

Mae Cynghorwyr Nyrsio Diogelu yn gweithio yn MASH bob dydd ac yn bresennol ym mhob trafodaeth a chyfarfod strategaeth yn ogystal â chyfarfodydd cynllunio diogelwch cam-drin domestig risg uchel. Maent hefyd yn ychwanegu rhybuddion ar gyfer achosion risg uchel at systemau rheoli cleifion y bwrdd iechyd. Ymchwilir i bob hysbysiad diogelu'r cyhoedd a gyflwynir mewn modd cyfannol a thrafodir pob un yn ystod y cyfarfod dyddiol. Mae Nyrsys Llesiant Emosiynol hefyd yn darparu cymorth Nyrs Ysgol i blant sy'n mynychu'r uned cyfeirio disgyblion, disgyblion pryderus sy'n mynychu'r ysgol a phlant sy'n derbyn addysg yn y cartref.

Wrth ddatblygu cynlluniau diogelwch, gall staff gofal iechyd herio mewn modd adeiladol lle y bo'n briodol. Dywedodd staff gofal iechyd y gwrandewir ar eu safbwyntiau a chânt eu parchu.

Ceir dealltwriaeth dda o'r llwybrau ar gyfer gwneud cais am archwiliad meddygol amddiffyn plant. Caiff y rhain eu cynnal mewn modd amserol a rhennir y canlyniadau ag asiantaethau partner. Roedd y sampl o adroddiadau yr edrychwyd arnynt yn glir ac yn gynhwysfawr.

**Addysg**

Mae ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion yn cael budd o'r cymorth eithriadol y maent yn ei gael gan amrywiaeth o dimau fel Seicolegwyr Addysgol, y tîm Iechyd a Llesiant Emosiynol a'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu cymorth buddiol i ddisgyblion agored i niwed.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dull 'Tîm o amgylch yr Ysgol' mewn ysgolion a chyfarfodydd 'Tîm o amgylch y Clwstwr' lle mae gweithwyr proffesiynol yn trafod sut y gallant ddarparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion agored i niwed. Er enghraifft, cafodd ysgolion yn Nhrelái fudd o drafodaethau ar sut y gallai'r awdurdod lleol eu helpu i ddelio â phryderon cynyddol am aflonyddwch cymdeithasol yr ardal.

Mae ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion strategaethau cadarn i wella presenoldeb disgyblion. Maent yn gweithio'n dda gyda'r gwasanaeth lles addysg i gefnogi'r gwaith hwn. Mae enghreifftiau da o welliant sylweddol ym mhresenoldeb disgyblion agored i niwed dros y 12 mis diwethaf. Mae panel Dechrau Newydd yr awdurdod lleol yn effeithiol iawn wrth gefnogi'r disgyblion agored i niwed hyn.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu amrywiaeth werthfawr o gymorth ac ymyriadau i ategu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm iechyd a lles mewn ysgolion ac yn yr uned

cyfeirio disgyblion. Mae'n ariannu chwe dosbarth lles i gefnogi anghenion unigol disgyblion agored i niwed. Yn dilyn cymorth, mae llawer o'r disgyblion hyn yn dychwelyd i addysg brif ffrwd yn llwyddiannus. Mae'r Tîm Addysgu Cymunedol, sef Tîm @Severn, y penodwyd wyth swyddog sgiliau a chymorth iddo yn ddiweddar, yn atgyfnerthu'r broses o ddatblygu cyfleoedd cwricwlwm wedi'u personoli sydd â ffocws clir ar iechyd a llesiant.

Er mwyn ymateb i'r angen cynyddol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol disgyblion ers y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth seicoleg addysgol yn darparu cymorth, hyfforddiant a chanllawiau i ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas ag Osgoi'r Ysgol ar sail Pryder. Mae Mewngymorth Ysgolion a Gwasanaethau Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl yn gweithio i feithrin sgiliau a hyder staff addysg, gan eu galluogi i gael gafael ar gymorth arbenigol ac ymyriadau uniongyrchol.

Mae'r awdurdod wrthi'n treialu un o fentrau Llywodraeth Cymru, sef tîm Ysgol Rithwir i Blant sy'n Derbyn Gofal, yn llwyddiannus. Wedi'i arwain gan bennaeth yr Ysgol Rithwir i Blant sy'n Derbyn Gofal, mae'r tîm yn darparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion agored i niwed hyn lais a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

**Heddlu De Cymru**

Mae'r heddlu yn cefnogi'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol drwy ddarparu arweinwyr dynodedig ar lefel strategol a lefel weithredol, gan gynnwys is-grwpiau. Ceir presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd partneriaeth, ac mae'r heddlu yn cadeirio un o'r is-grwpiau (Grŵp Adolygu Ymarfer Achosion).

**Gwasanaethau Plant**

Wrth i'r model ymarfer a ddefnyddir yng Nghaerdydd ddatblygu, mae ymrwymiad hirdymor i ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae ymarferwyr yn defnyddio meddylfryd sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau yn gyson wrth weithio gyda theuluoedd er mwyn nodi datrysiadau. Mae hyn yn amlwg drwy'r defnydd rheolaidd o gynadleddau grŵp teulu a chyfarfodydd cynllunio diogelwch, sy'n hyrwyddo cyfraniad teuluoedd at benderfyniadau am eu bywydau. Mae adborth rhieni yn dangos hyn; "*Mae'r gweithwyr cymdeithasol wedi bod yn help mawr ac wedi gwneud popeth y maent wedi dweud y byddent yn ei wneud; rydym yn deall yr hyn y mae angen i ni ei wneud fel rhieni er mwyn rhoi'r teulu ar ben ffordd unwaith eto*."

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn amlwg mewn cynadleddau achos amddiffyn plant. Mae cadeiryddion cynadleddau yn gofyn i asiantaethau sgorio'r risg, ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r sgôr hon i'w helpu i benderfynu a ddylid cynnwys enwau plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae

hyn hefyd yn helpu teuluoedd i ddeall safbwyntiau gweithwyr proffesiynol am y risgiau a'r hyn y mae angen ei wneud i wella diogelwch a rhoi sicrwydd yn ei gylch.

Mae'r cydberthnasau rhwng gwasanaethau plant a phartneriaid yn y trydydd sector yn gadarnhaol, ac mae arweinwyr gwasanaethau plant penodol wedi'u dynodi'n brif bwyntiau cyswllt iddynt. Mae hyn yn cael ei groesawu ac yn ategu cyfathrebu da.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Er bod yr heddlu yn rhannu hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd ag asiantaethau partner, ac yn eu lanlwytho i system TG BIPCF, nid yw nyrsys ysgolion yn cael hysbysiad i roi gwybod iddynt am hyn. Felly, efallai na fyddant yn ymwybodol o ddigwyddiadau domestig mewn cartrefi lle mae plant oed ysgol yn byw.

Lle na fydd unrhyw anghenion iechyd wedi'u nodi, ni fydd y nyrs ysgol yn mynychu grwpiau craidd na chynadleddau adolygu achos amddiffyn plant fel mater o drefn. Mae hyn yn golygu bod bylchau posibl mewn perthynas â rhannu gwybodaeth hanfodol. Pan na fydd y nyrs ysgol yn mynychu grwpiau craidd neu gynadleddau achos amddiffyn plant, ni fydd yn cael copi o'r cofnodion, ac unwaith eto, mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth bwysig yn cael ei rhannu.

**Addysg**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

**Heddlu De Cymru**

Caiff data amddiffyn plant eu casglu'n ddyddiol ar gyfer rheolwyr. Mae ffigurau ansoddol ar gael ac mae tueddiadau cyffredinol yn dangos bod niferoedd yn cynyddu. Caiff adroddiad misol hefyd ei lunio i'w ddadansoddi'n fwy strategol, ond nid yw'n glir sut y caiff hyn ei ddefnyddio i lywio perfformiad partneriaeth.

**Gwasanaethau Plant**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

## Atal

### Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau

Cydnabyddir bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant emosiynol plant. Wrth i'r adferiad barhau, mae'r ffocws wedi dychwelyd at uchelgeisiau tymor hwy, y manylir arnynt yn Caerdydd 2030 (dogfen strategaeth deng mlynedd), ac mae'r bwrdd adfer a sefydlwyd yn wreiddiol wedi'i ddatblygu'n fwrdd Plant a Phobl Ifanc. Bwrdd traws-gyfarwyddiaeth yw hwn, sy'n cynnwys y cyfarwyddiaethau Addysg, Gwasanaethau Plant, a Cymunedau a Thai, a'i nod yw sicrhau Cymorth Cynnar a Chymorth i Deuluoedd effeithiol a hygyrch ledled y ddinas.

Mae parch mawr ymysg ymarferwyr at wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar. Dywedodd ymarferwyr, er bod amrywiaeth dda o wasanaethau ataliol, bod rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau. Caiff rhestrau aros eu monitro a darperir cymorth 'mwy dwys' os bydd amgylchiadau'n newid, ond mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu monitro'n agos er mwyn lleihau risgiau posibl y bydd amgylchiadau'r teulu yn gwaethygu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae cymorth llai dwys yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef. Nodir bod adolygwyr ychwanegol wedi'u penodi, a fydd yn helpu i sicrhau y caiff cymorth ar gyfer teuluoedd ei gynnal lle y bo'n briodol, er enghraifft yn ystod y cyfnod dadgofrestru.

Er bod pwyslais amlwg iawn ar sicrhau ansawdd ac archwilio ymarfer mewn gwasanaethau plant, mae'r cyfraniad amlasiantaethol at archwilio ymarfer diogelu yn amrywio. Mae hyn yn golygu nad yw safbwyntiau amlasiantaethol yn cael eu hystyried yn gyson, Fodd bynnag, mae archwiliadau amlasiantaethol thematig rheolaidd wedi'u cynnal yn MASH.

Bydd newidiadau cymorth busnes sy'n cefnogi'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol hefyd yn helpu i olrhain a mynd ar drywydd camau gweithredu sy'n deillio o argymhellion adolygiadau ymarfer plant, y bu oedi mewn perthynas â rhai ohonynt yn flaenorol.

### Asiantaeth Unigol – Cryfderau

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Sefydlwyd Tîm Atal Trais amlasiantaethol, wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref, yn 2019. Mae Tîm Iechyd, sy'n cynnwys nyrs ac eiriolwr, wedi'i leoli yn yr Adran Achosion Brys, gan ddarparu cymorth ac atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw ddioddefwr trais sydd wedi'i anafu. Mae gwerthusiad y Swyddfa Gartref wedi bod yn gadarnhaol.

**Addysg**

Mae ymyriadau cynnar yn amlwg pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol. Caiff cymorth i blant ei ystyried yn brydlon cyn gynted ag y caiff anghenion eu nodi, ac mae nifer o dimau cymorth ar gael fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad. Mae llawer o ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion wedi penodi swyddogion cyswllt â theuluoedd. Anogir disgyblion agored i niwed i chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol.

Mae staff ysgolion a staff yr uned cyfeirio disgyblion yn sicrhau bod gan ddisgyblion gynlluniau cymorth perthnasol ar waith a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas at y diben. Ceir cydberthnasau gwaith cadarnhaol ar y cyfan ag ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill i nodi anghenion disgyblion pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion am y tro cyntaf.

**Heddlu De Cymru**

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cefnogi'r ymyriadau niferus yn ymwneud â phlant a theuluoedd y mae trais a niwed yn effeithio arnynt. Mae rhai o'r mentrau hyn yn cynnwys darpariaeth mewn ysbytai a darpariaeth gymunedol ac maent yn enghreifftiau o arferion gorau mewn perthynas â dulliau amlasiantaethol o helpu teuluoedd agored i niwed.

**Gwasanaethau Plant**

Ceir dull cadarnhaol o atal angen a risg rhag gwaethygu, er enghraifft mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio a chynnwys y gymuned yn ehangach er mwyn lleihau risgiau. Cafodd hyn ei ategu gan sefydliadau partner, a ddywedodd fod dull cydweithredol wedi'i arwain gan wasanaethau plant, gyda phwyslais ar gydweithio ar draws gwasanaethau perthnasol. Mae gwasanaethau cymorth cynnar yn cynnig amrywiaeth o ymyriadau a rhaglenni rhianta, y mae ymarferwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r cyfraniad cadarnhaol y mae'r gwasanaethau hyn yn ei wneud at ofal a chymorth. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Atgyfeirio Pobl Ifanc yn cynnig amrywiaeth o therapïau a chyfleoedd seibiant. Mae Timau Cymorth i Deuluoedd yn cynnig ymyriadau i deuluoedd y mae angen help arnynt o dan gynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth. Mae cymorth gan Thinksafe (gwasanaeth sy'n cynnig ymyriadau i blant sy'n wynebu risg y gallai rhywun gamfanteisio arnynt), a Turnaround yn helpu i leihau'r risg o gamfanteisio troseddol. Mae enghreifftiau cadarnhaol o weithwyr cymdeithasol yn defnyddio cymorth gan Dîm Enfys (Seicolegydd Clinigol a gweithiwr iechyd meddwl), er enghraifft o ran sut i symud ymlaen wrth drafod â pherson ifanc y rheswm pam y mae mewn gofal.

Gall swyddi'r adolygwyr Cynlluniau Gofal a Chymorth a gyflwynwyd yn ddiweddar, er na allant adolygu pob teulu sy'n destun cynllun gofal a chymorth, adolygu cyfran o'r cynlluniau yn annibynnol, gan gynnwys cymorth llai dwys na'r Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant sy'n derbyn gofal.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Nid oes cynllun parhad busnes diogelu ar waith. Mae hyn yn peri risg na fydd y bwrdd iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu mewn modd amserol os bydd tarfu ar fusnes arferol.

Mae ansawdd y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau ymarfer plant yn amrywio. Nid yw'n glir sut y caiff y cynlluniau eu monitro, ac nid yw rhai camau gweithredu yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

**Addysg**

Nid yw archwiliadau diogelu ysgolion yn nodi'r disgyblion hynny sydd wedi cael eu gwahardd neu sydd â chynllun cymorth bugeiliol ar waith yn llawn ar hyn o bryd.

Nododd archwiliad yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol a gynhaliwyd yn 2022 fod gweithwyr addysg proffesiynol yn atgyfeirio achosion heb ystyried llwybrau atgyfeirio amgen drwy gymorth cynnar neu'r Porth ar gyfer asesiadau gofal a chymorth yn llawn. O ganlyniad, mae'r gwasanaethau plant wedi arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau atgyfeirio amlasiantaethol a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau hyn bob amser yn cael eu deall na'u hymgorffori'r llawn mewn ymarfer ysgolion.

**Heddlu De Cymru**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

**Gwasanaethau Plant**

Mae oedi cyn cael gwasanaethau yn golygu na all pawb gael budd o'r gwasanaethau y gall fod eu hangen arnynt ar yr adeg gywir. Dylai'r awdurdod lleol barhau i fonitro'n fanwl ac adolygu mesurau ar gyfer mynd i'r afael â rhestrau aros am gymorth cynnar, er mwyn sicrhau mynediad amserol at wasanaethau i leihau'r risgiau y bydd amgylchiadau teuluoedd yn gwaethygu.

Yn gyffredinol, mae'r cofnodion yn dangos ymateb diogelu amserol wedi'i arwain gan fewnbwn amlasiantaethol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gellid bod wedi

dangos ystyriaeth o risgiau diogelu ehangach yn well. Caiff cofnodion eu gwella drwy ddangos bod ymarferwyr wedi ystyried yr holl risgiau ehangach posibl sy'n gysylltiedig â diogelwch a llesiant plant.

Mae'r graddau y caiff enwau plant eu hailgofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae'r awdurdod lleol eisoes wedi gwneud gwaith i ddeall y maes hwn yn well, ac mae archwiliadau wedi'u cwblhau er mwyn helpu i nodi camau unioni. Mae panel newydd wedi'i ddatblygu hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd penderfyniadau dadgofrestru ac ailgofrestriadau.

Mae rhai plant wedi'u henwi ar y gofrestr ers cyfnodau hir iawn o amser. Dylai rheolwyr fodloni eu hunain bod sbardunau priodol ar waith i adolygu ac uwchyfeirio achosion lle mae hyn yn brofiad bywyd i blant.

Mae gan gadeiryddion cynadleddau rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod y polisi uwchgyfeirio newydd yn cael ei ddilyn er mwyn gwella safonau ymarfer. Maent bellach yn defnyddio rhestr wirio i nodi heriau a chefnogi gwelliannau amlasiantaethol wrth wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Mae rhai penderfyniadau diogelu neu newidiadau pwysig i'r cynllun amddiffyn plant yn cael eu gwneud heb ailasesiad neu benderfyniad amlasiantaethol. Mae arweinwyr wedi datblygu canllawiau ymarfer ar oruchwyliaeth rheolwyr yn ddiweddar. Mae angen i'r canllawiau hyn gael eu hymgorffori yn ymarferol, er mwyn sicrhau bod rheolwyr a phartneriaid yn goruchwylio penderfyniadau pwysig yn ddigonol.

## Y camau nesaf

Ar ran y bartneriaeth, dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai hwn fod yn ymateb amlasiantaethol sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Heddlu De Cymru. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol. Dylai pennaeth y gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant anfon y datganiad gweithredu ysgrifenedig i CIWLocalAuthority@gov.wales erbyn 17 Mehefin 2024. Bydd y datganiad hwn yn llywio llinellau ymholi yn ystod gweithgarwch cyd-asiantaethol neu asiantaeth unigol gan yr arolygiaethau yn y dyfodol.

## Methodoleg

### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy edrych ar sampl o gofnodion asiantaethau ac olrhain trefniadau gofal a chymorth plant. Gwnaethom edrych ar sampl o 20 o ffeiliau, gan olrhain chwech ohonynt.

Mae'r broses o olrhain cofnod plentyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn lle y bo'n briodol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda staff a chanolbwyntiodd dau grŵp o weithwyr proffesiynol ar y trefniadau gweithio a'r canlyniadau ar gyfer dwy ffeil a gafodd eu holrhain.

Gwnaethom ymweld â sampl bach o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gan gynnal cyfarfodydd â'r pennaeth, yr arweinydd diogelu dynodedig a grwpiau o ddisgyblion.

Gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o amrywiaeth o ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion, gan gynnwys penaethiaid, personau diogelu dynodedig a llywodraethwyr.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion ar draws asiantaethau gwahanol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth ategol a anfonwyd at yr arolygiaethau at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom anfon arolygon at staff gwasanaethau plant a gofal iechyd, sefydliadau yn y trydydd sector, ysgolion a phlant ac aelodau o'u teulu.

Gwnaethom arsylwi ar gynhadledd amddiffyn plant, cyfarfod strategaeth adolygu camfanteisio ar blant a chyfarfod strategaeth MASH fel rhan o'n gweithgarwch arolygu diweddar.

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r arolygiaethau ddiolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.